Hawliau Plant
Cymru

Children's Rights
Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Hawliau Plant 2021

Trefniadau ar gyfer rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) a'i Brotocolau Dewisol pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

Rhagfyr 2021

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG44156 ISBN digidol 978-1-80391-448-0

## Rhagair


Yng Nghymru mae hawliau plant yn gwbl sylfaenol – nid rhywbeth ychwanegol dewisol mohonynt. Rydym wedi arwain y ffordd ym maes hawliau plant drwy eu hymgorffori mewn cyfraith drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[1]. Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud trefniadau deddfwriaethol mor arwyddocaol er mwyn sicrhau lle canolog i hawliau plant.

Rwyf am weld Cymru sy'n cydnabod bod plant a phobl ifanc yn ddinasyddion gweithredol sydd â chyfraniad pwysig i'w wneud yn eu cymunedau a'u gwlad.

Mae'r Cynllun Hawliau Plant diwygiedig hwn yn seiliedig ar *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru*[2] a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru. Mae'r strwythur newydd hwn yn darparu fframwaith strategol i gynnwys hawliau plant ym mhob agwedd ar y broses o wneud penderfyniadau.

Croesawaf yr ymchwiliad eang a manwl i Hawliau Plant gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg[3]. Rwy'n falch o fod wedi gallu cynnwys nifer o argymhellion y pwyllgor yn y Cynllun Hawliau Plant diwygiedig hwn.

Ymgynghorais ar y Cynllun drafft rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021 ac rwy'n ddiolchgar am yr ymatebion seiliedig ar wybodaeth a gafwyd, sydd wedi'u hystyried yn ofalus. Mae'r Cynllun hwn wedi'i ddiweddaru i sicrhau bod hawliau plant yn parhau i fod wrth wraidd llunio polisïau ar gyfer Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru.



**Julie Morgan AS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

[1] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
[2] Y Ffordd Gywir – Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru, Comisiynydd Plant Cymru, Mawrth 2017
[3] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Ymchwiliad i hawliau plant yng Nghymru, Awst 2020

## Contents

**Diben y Cynllun** ... **3**

**Strwythur y Cynllun** ... **3**

**Datblygu'r cynllun hwn** ... **4**

**1. Cyflwyniad** ... **5**

**2. Cefndir** ... **6**

**3. Ymgorffori hawliau plant o fewn Llywodraeth Cymru** ... **9**

*3.1 Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig)* . *9*

*3.2 Llawlyfr i swyddogion Llywodraeth Cymru i gefnogi ymgorffori hawliau plant....* ... *10*

*3.3 Sefydlu Cangen Plant o fewn Llywodraeth Cymru* ... *10*

*3.4 Dull hyfforddi i gefnogi Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru* .... *11*

**4. Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu** ... **12**

*4.1 AEHP – rôl ymchwil ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc* ... *12*

*4.2 Arbenigedd allanol i gefnogi hawliau plant* ... *12*

**5. Grymuso Plant a Phobl Ifanc** ... **13**

*5.1 Cynllun codi ymwybyddiaeth* ... *13*

*5.2 Rhoi'r cynllun ymwybyddiaeth ar waith* ... *13*

**6. Cyfranogi** ... **14**

*6.1 Model ymgysylltu* ... *14*

*6.2 Safonau Cyfranogiad* ... *14*

*6.3 Cymru Ifanc* ... *15*

*6.4 Rhoi gwybodaeth hygyrch i blant a phobl ifanc* ... *15*

**7. Atebolrwydd** ... **16**

*7.1 Proses adborth a chwynion ar gyfer plant a phobl ifanc* ... *16*

*7.2 Cyhoeddi a chwblhau AEHPau* ... *16*

*7.3 Adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran un o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)* ... *16*

*7.4 Sylwadau Cloi y Cenhedloedd Unedig* ... *17*

**Atodiad A: Rhestr (nad yw'n hollgynhwysfawr) o Gytuniadau Rhyngwladol perthnasol a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU** ... **18**

**Atodiad B: Sefydliadau a all helpu pobl ifanc i roi adborth** ... **19**

## Diben y Cynllun

Er mai Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru yw'r gynulleidfa a fwriedir ar gyfer y ddogfen hon, mae ganddi rôl hefyd wrth amlinellu i'r cyhoedd yng Nghymru y trefniadau ymarferol sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried wrth ymgymryd â'u gwaith.

Amcan y Cynllun Hawliau Plant (‘y Cynllun’) yw cefnogi:

- gwaith llunio polisi o ansawdd uchel i wella bywydau plant a phobl ifanc;
- plant a phobl ifanc i wireddu eu hawliau drwy gymryd rhan weithredol yn y broses bolisi; a
- plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau fel dinasyddion Cymru a'r byd.

*Mae'r Cynllun Hawliau Plant 2021 hwn yn disodli Cynllun Hawliau Plant 2014*[4].

## Strwythur y Cynllun

Mae’r Cynllun wedi'i strwythuro o amgylch pum egwyddor y dull Ffordd Gywir, a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru. Mae hyn yn darparu fframwaith strategol i integreiddio hawliau plant i wneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer. Mae’r egwyddorion fel a ganlyn:

- **Gwreiddio hawliau plant**– dylai hawliau plant fod yn ganolog i gynllunio a darparu gwasanaethau;
- **Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu** – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gall fod ac nad yw'n dioddef camwahaniaethu;
- **Grymuso plant** – gwella gallu plant fel unigolion fel eu bod yn medru manteisio'n well ar hawliau;
- **Cyfranogi -** gwrando ar blant a phobl ifanc, a rhoi ystyriaeth lawn i'w safbwyntiau
- **Atebolrwydd** – dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

[4] Cynllun Hawliau Plant 2014

## Datblygu'r cynllun hwn

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar fersiwn ddrafft o'r Cynllun hwn[5] rhwng 17 Rhagfyr 2020 a 26 Mawrth 2021 – roedd hyn yn cynnwys fersiwn plant a phobl ifanc.[6]

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 25 Mehefin 2021[7]. Daeth 34 o ymatebion i law (24 o ymatebion i'r ymgynghoriad a 10 o ymatebion i fersiwn plant a phobl ifanc yr ymgynghoriad).

Wrth adolygu'r Cynllun hwn, mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried adroddiadau, awgrymiadau ac argymhellion cyffredinol a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ('y Pwyllgor')[8]. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi ystyried yr adroddiadau canlynol:

- Gwaith craffu Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Mesur a'i adroddiad terfynol *Hawliau Plant yng Nghymru*, Awst 2020;
- Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, *The impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales*[9], Awst 2018;
- *Evaluation of the Welsh Government's Child Rights Impact Assessment procedure under the Children's Rights Scheme pursuant to the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011*[10], 2015
- Ystyried cydadroddiad Comisiynwyr Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mis Rhagfyr 2020[11].

---

[5] Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021 - Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru
[6] Ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021
[7] https://.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-06/1crynodeb-or-ymatebion.pdf
[8] Cyhoeddodd y Pwyllgor sylwadau terfynol am y cynnydd a wnaed gan 4 gwlad y DU o ran cynnal hawliau plant yn 2016 ac mae sylw wedi'i roi i'r rhai wrth baratoi'r Cynllun diwygiedig hwn. Cyn ei archwiliad nesaf o gynnydd 4 gwlad y DU, cyhoeddodd y Pwyllgor ei restr o faterion ym mis Chwefror 2021. Cyhoeddir y set nesaf o gasgliadau terfynol gan y Pwyllgor ar ôl i'r DU gyflwyno ei hadroddiad nesaf i'r Pwyllgor yn 2022 ar hynt y gwaith o weithredu'r Confensiwn.
[9] The Impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales, y Dr Simon Hoffman a Sean O'Neill, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Awst 2018
[10] Evaluation of the WG's CRIA procedure under the CRS pursuant to the Rights of Children and Young Persons Wales Measure (2011) – Dr S Hoffman a C Morse – Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, Mehefin 2015
[11] Adroddiad Comisiynwyr Plant Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Rhagfyr 2020

# 1. Cyflwyniad

Pasiwyd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ('y Mesur'), gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ionawr 2011. Mae adran 1 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau i roi sylw dyledus i ofynion y canlynol:

- Rhan I o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (‘y Confensiwn’)[12]
- Erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog, ac eithrio erthygl 6(2)[13]
- Erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant[14]

Gwneir y Cynllun Hawliau Plant o dan adran 2 o'r Mesur ac mae'n gosod y trefniadau y mae Gweinidogion Cymru wedi'u gwneud, neu y maent yn bwriadu eu gwneud, at ddiben sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1.

Mae’r Confensiwn yn gytundeb rhyngwladol sy’n gwarchod hawliau dynol plant dan 18 oed. Mae'n cydnabod nid yn unig eu hawliau dynol sylfaenol ond mae'n rhoi hawliau ychwanegol iddynt i'w diogelu rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Mae'r Confensiwn yn cynnwys 54 o erthyglau. Mae erthyglau 1-42 yn nodi sut y dylid trin plant ac mae erthyglau 43-54 yn cyfeirio at sut y dylai oedolion a llywodraethau gydweithio er mwyn sicrhau y gall pob plentyn fwynhau ei hawliau.

[12] Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn
[13] Y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog
[14] Y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant

# 2. Cefndir

## Cymru a'r Confensiwn

Mae'r Confensiwn yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Cymeradwywyd testun y Confensiwn gan Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig ar 20 Tachwedd 1989.

Ar 16 Tachwedd 1991, cadarnhaodd Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon y Confensiwn a daeth i rym mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig ar 15 Ionawr 1992. Mae'r Deyrnas Unedig hefyd wedi cadarnhau dau 'Brotocol Dewisol' i'r Confensiwn:

- Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar gynnwys plant mewn gwrthdaro arfog;
- Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

Mae'n ofynnol i wladwriaethau sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn, o dan erthygl 44, hysbysu Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ('y Pwyllgor') am y mesurau y maent wedi'u mabwysiadu er mwyn gweithredu'r hawliau a gydnabyddir o fewn y Confensiwn a'r hynt a wnaed i fwynhau'r hawliau hynny.

Yn 2002 datblygodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, y Saith Nod Craidd[15] ar gyfer plant a phobl ifanc a grynhodd y Confensiwn fel sail ar gyfer cynllunio, penderfynu ar flaenoriaethau ac amcanion yn genedlaethol ac yn lleol.

Ym mis Ionawr 2004 mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Confensiwn yn sail i'w bolisïau ynghylch plant a phobl ifanc. At ddibenion y Cynllun hwn, mae 'plant' a 'phobl ifanc' yn cyfeirio at y rhai hyd at 18 oed, er mwyn cyd-fynd â'r Confensiwn.

[15] Rhaglen Plant a Phobl Ifanc, Medi 2015

## Beth yw'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru?

Noda adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, oddi ar ddechrau 1 Mai 2014:

Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, roi sylw dyledus i ofynion:

- Rhan I y Confensiwn;
- Erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog, ac eithrio erthygl 6(2), ac
- Erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

Mae dyletswyddau Gweinidogion Cymru yn cynnwys popeth y *caniateir* i Weinidogion Cymru ei wneud o dan y pŵer a freiniwyd ynddynt o dan y ddeddfwriaeth a phopeth y mae *rhaid* i Weinidogion Cymru ei wneud oherwydd bod deddfwriaeth wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud hynny.

Golyga hyn fod y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn gymwys pryd bynnag y maent yn defnyddio unrhyw rai o'u pwerau i wneud penderfyniad, neu pryd bynnag y mae dyletswydd wedi'i gosod arnynt i wneud penderfyniad. Caiff holl gamau gweithredu Llywodraeth Cymru eu cyflawni drwy ddefnyddio pwerau neu ddyletswyddau Gweinidogion Cymru.

Cyfeirir at y ddyletswydd a osodir gan adran 1 o'r Mesur fel ‘y ddyletswydd sylw dyledus’.

Mae'r Mesur yn gosod y ddyletswydd sylw dyledus ar Weinidogion Cymru a rhaid iddynt fod yn llwyr ymwybodol o'r ddyletswydd hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau. Mae'r ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys i Weinidogion hyd yn oed pan fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd hefyd yn gymwys i Ddirprwy Weinidogion.

Mae'r term sylw dyledus yn gofyn am roi ystyriaeth gytbwys i faterion. Golyga hyn fod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, ystyried sut mae'r hyn y maent yn ei wneud yn ymwneud â hawliau a rhwymedigaethau'r Confensiwn. Wrth nodi unrhyw effaith negyddol ar blant a phobl ifanc, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a ellir cymryd unrhyw gamau i osgoi neu leihau'r effaith hon. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ystyried sut y gallant wella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at eu hawliau drwy ddefnyddio eu swyddogaethau.

Ar ôl ystyried hyn, mae angen rhoi ystyriaeth gytbwys (sylw dyledus) i'r canlyniad yn erbyn y ffactorau eraill y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu hystyried wrth wneud y penderfyniad dan sylw.

# 3. Ymgorffori hawliau plant o fewn Llywodraeth Cymru

Mae hawliau plant wrth wraidd y gwaith o lunio polisïau yng Nghymru. Hawliau plant sy'n sail i'n huchelgais bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gwireddu ei botensial.

Mae cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wedi'i hymgorffori'n gadarn ochr yn ochr â dyletswyddau cyfreithiol eraill ar Weinidogion megis Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg a'r ddyletswydd i fod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Hefyd, ceir cytuniadau sydd wedi cael eu cadarnhau gan Lywodraeth y DU ac sydd, felly, yn gyfreithiol rwymol. Caiff y rhain eu nodi yn Atodiad A.

Mae gan y Cynllun y trefniadau canlynol ar waith:

## 3.1 Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig)

Mae'r Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn ein galluogi i gynnal asesiad cyflawn o effaith cam gweithredu arfaethedig, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

Mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHP) yn rhan allweddol o'r AEI, a dyma sut y disgwylir i swyddogion helpu Gweinidogion Cymru i sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd sylw dyledus.

Mae'r AEHP yn darparu fframwaith i swyddogion ystyried a chofnodi a yw'r cynigion polisi yn cefnogi hawliau plant a phobl ifanc. Mae'n galluogi swyddogion i ystyried beth mae'r polisi/deddfwriaeth/cyngor yn ceisio'i gyflawni a'r effeithiau a allai gael (cadarnhaol a negyddol) ar blant sydd â phrofiadau bywyd gwahanol.

Mae templed AEHP yn cynnwys awgrymiadau i helpu swyddogion i gynnal eu dadansoddiad a dangos eu bod wedi ystyried hawliau plant ac wedi achub ar bob cyfle i nodi ffyrdd o wireddu'r hawliau perthnasol i gefnogi Gweinidogion wrth iddynt wneud penderfyniadau.

Mae'r broses AEHP yn gyson â gofynion yr Confensiwn fel y'u nodir yn y Mesurau Gweithredu Cyffredinol (erthyglau 4, 42 a 44(6)).

## 3.2 Llawlyfr i swyddogion Llywodraeth Cymru i gefnogi ymgorffori hawliau plant

Mae'r llawlyfr yn rhoi cymorth i ymgorffori meddwl am hawliau plant yn y broses o lunio polisïau. Mae templed AEHP ar gael yn y llawlyfr.

Mae'r llawlyfr yn rhoi eglurder ar rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

**Gweinidogion**

Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Rhaid iddynt ystyried hawliau plant mewn modd cytbwys wrth wneud penderfyniadau.

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw dyledus drwy ystyried y Confensiwn yn briodol cyn iddynt roi gwybodaeth, cyngor, opsiynau ac argymhellion. Disgwylir i swyddogion gyflawni Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, sef y broses a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu Gweinidogion Cymru i sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd sylw dyledus. Os na chaiff asesiad o'r fath ei gyflawni ar gyfer polisi/penderfyniad penodol, bydd angen i swyddogion gofnodi'r rheswm dros hynny.

**Dirprwy Gyfarwyddwyr**

Mae gan Ddirprwy Gyfarwyddwyr rôl benodol wrth gymeradwyo'r asesiad gan mai nhw yw'r swyddogion atebol. Bydd y llawlyfr yn amlinellu'r rôl arwain allweddol sydd gan Ddirprwy Gyfarwyddwyr o arwain y broses asesu o fewn eu his-adrannau.

## 3.3 Sefydlu Cangen Plant o fewn Llywodraeth Cymru

Mae gan y Gangen Plant rôl arweiniol allweddol o ran ymgorffori hawliau plant ar draws y sefydliad. Mae'r gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- Helpu swyddogion i ddeall y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol a'u rôl wrth sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd sylw dyledus;
- Arwain ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiadau mewn perthynas â'r Confensiwn ac argymhellion Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig;
- Paratoi a diweddaru'r CHP a'r llawlyfr i swyddogion;
- Cyflwyno adroddiadau cydymffurfio yn erbyn y ddyletswydd o dan adran un o'r Mesur;

- Helpu swyddogion i ymgysylltu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc a pharatoi dogfennau sy'n addas i blant;
- Cyngor a chymorth mewn perthynas ag AEHPau; ac
- Arwain ar y cynllun codi ymwybyddiaeth o hawliau plant.

Mae gan y gangen y rôl rheoli grantiau ar gyfer *Plant yng Nghymru*. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Plant yng Nghymru er mwyn hwyluso gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a rhoi cymorth i weithwyr proffesiynol yn y sector plant.

Y Gangen Plant yw corff noddi swyddfa *Comisiynydd Plant Cymru*. Mae *swyddfa Comisiynydd Plant Cymru* yn sefydliad hawliau dynol annibynnol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

## 3.4 Dull hyfforddi i gefnogi Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen sicrhau bod corff mawr o wybodaeth am hawliau plant ar gael i swyddogion er mwyn eu galluogi i roi cyngor cynhwysfawr i Weinidogion Cymru. Mae dull hyfforddi wedi'i ddatblygu ar gyfer Gweinidogion a Swyddogion Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Modiwl hyfforddi ar-lein ar hawliau plant;
- Modiwl hyfforddi ar-lein ar AEHPau;
- Mynediad i ddosbarthiadau meistr gydag arbenigwyr hawliau plant; a
- Mynediad i amrywiaeth o adnoddau hawliau plant.

## 4. Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd tystiolaeth fel bloc adeiladu sylfaenol ar gyfer gwneud penderfyniadau gan y llywodraeth a mynd i'r afael â chydraddoldeb a diffyg gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc.

Mae gan y Cynllun y trefniadau canlynol ar waith:

### 4.1 AEHP – rôl ymchwil ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae templed AEHP yn cefnogi swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried effaith (neu ganlyniad anfwriadol) y polisi/deddfwriaeth/cyngor ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc ac a ellir cymryd unrhyw fesurau i leihau, dileu neu liniaru'r effeithiau hynny os yw'n bosibl.

Mae templed AEHP yn ailddatgan pwysigrwydd ymchwil a data ar blant a phobl ifanc o ran galluogi swyddogion i ddeall materion gwahaniaethu posibl. Mae'r model ymgysylltu (adran 6.1) yn amlinellu pwysigrwydd ymgysylltu â grwpiau amrywiol o blant a phobl ifanc sydd â phrofiadau bywyd gwahanol.

### 4.2 Arbenigedd allanol i gefnogi hawliau plant

Rydym wedi sefydlu'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant sy'n cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant ac UNICEF. Mae'r fforwm hwn yn rhoi'r cyfle i swyddogion Llywodraeth Cymru gael cyngor allanol, arbenigol parhaus ar y ffordd mae polisïau Llywodraeth Cymru yn cefnogi hawliau plant.

# 5. Grymuso Plant a Phobl Ifanc

Dylai hawliau plant rymuso plant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu manteisio ar eu hawliau yn well, ac ymgysylltu â'r bobl a'r sefydliadau sy'n effeithio ar eu bywydau, dylanwadu arnynt a'u dwyn i gyfrif.

Mae adran 5 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i gymryd y camau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol ymhlith y cyhoedd (gan gynnwys plant a phobl ifanc). Bwriedir i'r ddyletswydd hon roi'r rhwymedigaeth sydd yn erthygl 42 o'r Confensiwn ar waith.

Mae gan y Cynllun y trefniadau canlynol ar waith:

## 5.1 Cynllun codi ymwybyddiaeth

Rydym wedi datblygu cynllun codi ymwybyddiaeth sydd wedi anelu at blant, pobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r cynllun yn ceisio hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae ganddo 5 llinyn allweddol:

- Cyfathrebu ac ymgysylltu uniongyrchol â phlant;
- Y dull blynyddoedd cynnar;
- Lleoliadau addysg a ategir gan Gwricwlwm newydd Cymru;
- Ymwybyddiaeth y sector cyhoeddus/proffesiynol o hawliau plant; a
- Cyfathrebu â rhieni a gofalwyr

Bydd Diwrnod Plant y Byd ar 20 Tachwedd yn ddigwyddiad blynyddol allweddol i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant ar draws y llywodraeth.

## 5.2 Rhoi'r cynllun ymwybyddiaeth ar waith

Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau allanol sydd â rôl o ran cefnogi'r agenda hon i wneud yn canlynol:

- meithrin gweledigaeth ar y cyd i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn
- egluro priod rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad; a chytuno ar linell amser lefel uchel gydlynol o weithgarwch.

# 6. Cyfranogi

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd gwrando ar blant a phobl ifanc a chymryd eu barn i ystyriaeth mewn ffordd ystyrlon. Mae Erthygl 12 o'r Confensiwn yn cydnabod hawl plant a phobl ifanc i fynegi eu barn yn rhydd am faterion sy'n effeithio arnynt, ac y dylai barn y plentyn gael ei hystyried yn briodol yn unol ag oedran a lefel aeddfedrwydd y plentyn.

Mae gan y Cynllun y trefniadau canlynol ar waith i gefnogi hawl plentyn i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau:

## 6.1 Model ymgysylltu

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu model ymgysylltu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i fynegi eu safbwyntiau ac i'r rheini gael eu hystyried.

Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd blynyddol i bob Gweinidog gynnal trafodaethau gyda phlant a phobl ifanc.

Disgwylir i swyddogion Llywodraeth Cymru nodi cyfleoedd i blant a phobl ifanc leisio eu barn fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a llunio polisïau/deddfwriaeth.

Mae'r Model yn darparu fframwaith i hwyluso a chefnogi ymgysylltiad swyddogion Llywodraeth Cymru â phlant a phobl ifanc. Ei nod yw:

- cefnogi swyddogion wrth benderfynu pa ddull neu lefel o ymgysylltu fyddai'n gweddu orau i'w hamcanion a'u hanghenion polisi;
- sicrhau bod gwaith cyfranogol yn gynrychioliadol ac yn adlewyrchu natur amrywiol plant a phobl ifanc yng Nghymru; a
- hyrwyddo egwyddorion arfer da wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc.

## 6.2 Safonau Cyfranogiad

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc[16]. Mae'r Safonau yn nodi'r materion allweddol y dylai gweithwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru.

[16] Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc

## 6.3 Cymru Ifanc

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid craidd i Gymru Ifanc ddatblygu model cynrychioliadol i alluogi cyfranogiad ystyrlon gan blant a phobl ifanc ar gyfer Gweinidogion a swyddogion Cymru.

## 6.4 Rhoi gwybodaeth hygyrch i blant a phobl ifanc

Caiff swyddogion Llywodraeth Cymru eu hannog i lunio fersiynau sy'n briodol i blant o ganllawiau, ymgyngoriadau a dogfennau polisi, lle nodir y bydd cynigion polisi/deddfwriaeth yn effeithio ar blant a phobl ifanc. Dylai cyfathrebu fod yn briodol i blant a phobl ifanc ac yn berthnasol i'w hoedran, eu dealltwriaeth a'u hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

# 7. Atebolrwydd

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd plant a phobl ifanc i ddeall sut mae Llywodraeth Cymru yn atebol iddynt am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae gan y Cynllun y trefniadau canlynol ar waith:

## 7.1 Proses adborth a chwynion ar gyfer plant a phobl ifanc

Rydym wedi creu proses gwyno ar gyfer plant a phobl ifanc; bydd hyn yn eu galluogi i herio'r Gweinidog(ion) ar ystod o benderfyniadau gan gynnwys pan fyddant yn teimlo nad ydynt wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae yna hefyd sefydliadau a all gynorthwyo plant a phobl ifanc drwy roi adborth/cymorth - gweler Atodiad B.

## 7.2 Cyhoeddi a chwblhau AEHPau

I hyrwyddo tryloywder, cyhoeddir Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gall y cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, herio Llywodraeth Cymru lle maent o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus. Gall hyn gynnwys sefyllfa lle na chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig. Os na chaiff Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gyflawni, bydd angen i swyddogion gofnodi'r rheswm dros hynny.

## 7.3 Adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran un o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad bob 5 mlynedd ar sut y maent hwy a'r Prif Weinidog wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyhoeddi ei hadroddiad cydymffurfio bob dwy flynedd a hanner.

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru a'r Senedd fyfyrio ar effeithiolrwydd y trefniadau fel y'u nodir yn y Cynllun. Bydd yn amlinellu sut mae'r cynllun wedi cyflawni yn erbyn ei amcanion wrth gefnogi:

- Gwaith llunio polisi o ansawdd uchel i wella bywydau plant a phobl ifanc;
- Plant a phobl ifanc i wireddu eu hawliau drwy gymryd rhan weithredol yn y broses bolisi; a
- Plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau ac yn gallu arfer eu hawliau

## 7.4 Sylwadau Cloi y Cenhedloedd Unedig

Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn, o dan erthygl 44, hysbysu Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Pwyllgor) am y mesurau y maent wedi'u mabwysiadu er mwyn gweithredu'r hawliau a gydnabyddir o fewn y Confensiwn a'r hynt a wnaed i fwynhau'r hawliau hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Sylwadau Cloi'r Pwyllgorau.

## Atodiad A: Rhestr (nad yw'n hollgynhwysfawr) o Gytuniadau Rhyngwladol perthnasol a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil (1965)[17];
- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (1966) a'i brotocolau dewisol [18] a'r[19] ail brotocol dewisol[20];
- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (1966)[21];
- Y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (1979) [22] a'i brotocol dewisol (1999)[23];
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a Thriniaeth Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (1984) [24];
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (2006)[25].

---

17 Y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil, 1965
18 Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol
19 Protocol Dewisol i'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol
20 Ail Brotocol Dewisol i'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol, sy'n anelu at ddiddymu'r gosb am farwolaeth
21 Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, 1966
22 Confensiwn ar Ddiddymu Pob Ffurflen Gwahaniaethu, Rhagfyr 1979
23 Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Ddiddymu Pob Ffurflen Gwahaniaethu yn erbyn Menywod
24 Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol, Rhagfyr 1984
25 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, 2006

## Atodiad B: Sefydliadau a all helpu pobl ifanc i roi adborth

Mae gan **Gomisiynydd Plant Cymru** y pŵer i roi cyngor a chymorth i bobl a phlant ifanc sydd am herio Gweinidogion, a'u cynrychioli. Mae gan y Comisiynydd Plant y pŵer i adolygu sut mae gwaith Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r canlynol yn ddolen i wefan y Comisiynydd:

https://www.complantcymru.org.uk/cysyllta/

**MEIC** – Dyma'r llinell gymorth Eiriolaeth a Chyngor i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae eiriolwyr MEIC yn helpu plant a phobl ifanc i gael eu clywed gan eraill. Mae MEIC ar gael i roi cyngor a gwybodaeth i blant a phobl ifanc sydd am herio Gweinidogion Cymru. Gallant hyd yn oed gysylltu ag eraill ar eu rhan.

Dyma’r ddolen i wefan MEIC

gwefan : www.meiccymru.org